Dyddiad: Hydref 26 2009
Ar Ran: Boomerang Plus plc ('Boomerang', 'Y Cwmni' neu 'Y Grŵp')
Embargo tan 0700

Boomerang Plus plc

Canlyniadau Rhagarweiniol

Heddiw, mae Boomerang Plus (AIM: BOOM.L), sy'n grŵp o gwmnïau proffidiol, wedi eu integreiddio'n fertigol, yn cynhyrchu rhaglenni teledu aml-genre, sy'n gweithredu o fewn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, yn cyhoeddi ei ganlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd ar Fai 31ain, 2009

Ariannol

- Refeniw o £19.76 miliwn (2008: £20.93 miliwn), lleihad o 5.6% yn bennaf oherwydd gohirio prosiectau
- Elw weithredol o £1.14 miliwn (2008: £1.40 miliwn), lleihad o 19%
- Elw weithredol gywiriedig* o £1.25 miliwn (2008: £2.20 miliwn), lleihad o 43%
- Elw cyn treth o £1.10 miliwn (2008: £1.30 miliwn), lleihad o 16%
- Arian a chywerthoedd arian o £3.03 miliwn (2008: £6.33 miliwn)

Gweithredol

- Cytundeb tair blynedd am £12miliwn gan S4C i gynhyrchu rhaglenni a dolenni ar gyfer plant hŷn gan S4C, yn cadarnhau'r safle fel un o brif gynhyrchwyr Plant yn y DU.
- Cynnydd refeniw o 93% gan yr adran rhaglenni a gyllidir gan hysbysebwyr (Advertiser Funded Programming 'AFP') i £1miliwn
- Cynhyrchu 371 awr o raglenni teledu yn y flwyddyn galendr 2008.

** wedi ei gywiro ar gyfer treuliau gweinyddol eithriadol (2009: £dim, 2008: £064 miliwn), ffioedd proffesiynol ar gyfer trafodion corfforaethol aflwyddiannus (2009: £0.07miliwn, 2008: £0.10 miliwn), amorteiddio asedion annirweddol yn deillio o gaffaeliadau busnesau (2009: £0.02 miliwn; 2008: £0.04 miliwn) a thaliadau'n seiliedig ar gyfranddaliadau (2009: £0.02 miliwn, 2008: £0.02 miliwn).*

Rhagolygon

- Gwelededd uchel o gomisiynau yn y dyfodol gyda phibell refeniw o £42.9 miliwn yn cynnwys £16.9 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
- Hinsawdd reoleiddio ffafriol
- Mantolen gryf i gyllido twf yn y dyfodol
- Ymgorffori digwyddiad fel cyd-fenter Freesports on 4 Freeze live ar ôl diwedd y flwyddyn
- Caffaeliad y cynhyrchydd aml-gyfryngol Method ar ôl diwedd y flwyddyn
- Caffaeliad Indus Films Limited ar ôl diwedd y flwyddyn
- Masnachu cyfredol yn unol â disgwyliadau'r Bwrdd.

Dywedodd Huw Eurig Davies, Prif Weithredwr Boomerang Plus:
"Mae Boomerang wedi mwynhau datblygiadau cadarnhaol a chyffrous yn y misoedd diwethaf ar waethaf yr hinsawdd ariannol anodd.

"Rydym wedi'n lleoli'n dda gyda gweledd uchel o refeniw, mantolen gryf ac yn gweithredu mewn amgylchfyd rheoleiddio tra ffafriol. Mae hwn yn rhoi llwyfan ardderchog i gyfnod nesaf tyfiant y cwmni."

- Diwedd -

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Boomerang Plus plc **Trwy Redleaf Communications**
Huw Eurig Davies, Prif Weithredwr
Mark Fenwick, Cyfarwyddwr Cyllid

Redleaf Communications **020 7566 6731**
Anna Dunkin/ Samantha Robbins **boomerang@redleafpr.com**

Altium Capital
Tim Richardson/ Melanie Szalkiewicz 020 7484 4040

Evolution Securities
Adam Lloyd 020 7071 4317

Boomerang Plus plc

- Mae gan y Grŵp, a sefydlwyd yn 1994, brofiad eang mewn cynhyrchu cynnwys mewn amrywiaeth o genres, yn cynnwys rhaglenni ieuenctid, ffordd o fyw, cerddoriaeth, adloniant, rhaglenni plant, chwaraeon eithafol a drama.
- Mae'r farchnad i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau wedi tyfu yn dilyn gosod cwota gan y rheoleiddiwr Ofcom yn mynnu fod rhwng 10% a 50%, yn dibynnu pa ddarlledwr, o raglenni cymwys yn cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25
- Mae Boomerang yn cael ei gyfrif ymhlith y pum prif gwmni cynhyrchu annibynnol, yn ôl enillion, y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn ôl arolwg Broadcast (Nations and Regions) 2009
- Strategaeth y Bwrdd yw cael twf organig cryf dan ddylanwad busnes y cwsmeriaid presennol a chyplysu hyn gyda chaffaeliadau strategol, gyda'r bwriad o ddod yn gyflenwr mawr i rwydweithiau'r DU sydd am fodloni'r cwotâu o'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau.

Datganiad y Cadeirydd

Roeddwn yn hynod falch o dderbyn Cadeiryddiaeth anweithredol Boomerang yn mis Hydref 2008, ac 'rwy'n falch o gyflwyno canlyniadau'r Grŵp am y flwyddyn hyd at Mai 31, 2009.

Bu'n flwyddyn anodd i bob darlledwr yn y DU ac mae hynny'n anorfod wedi cael effaith ar y sector gynhyrchu, yn arwain at bwysau ychwanegol ar gyllidebau a maintioli'r elw yn ogystal â chreu mwy o ansicrwydd yn yr hinsawdd gomisiynu. Nid yw Boomerang yn gallu osgoi'r effaith hyn.

Yng ngoleuni hyn, ac yn dilyn blwyddyn o dwf sylweddol yn 2008, mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar integreiddio'r busnesau presennol, tyfu'r adran Rhaglenni a ariennir o Hysbysebion - Advertiser Funded Programming ('AFP') a chyflenwi a datblygu pibell o brosiectau i'w gwsmeriaid allweddol er mwyn sicrhau gweledegd tymor hir.

Rydym wedi creu Grŵp amrywiol sydd gyda'r mwyaf yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn y DU, a chynhyrchu dros ystod eang o genres amrywiol yn cynnwys adloniant, drama, ffordd o fyw, plant, chwaraeon a ffeithiol.

Atgyfnerthwyd y safleoli strategol hwn gan adolygiad Ofcom yn ogystal ag adroddiad Digital Britain sydd wedi cynyddu'r cwotâu comisiynu o'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ac wedi cryfhau safle S4C wrth sicrhau ei le yn nyfodol darlledu cyhoeddus yn yr oes ddigidol.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd y Grŵp i fuddsoddi mewn marchnadoedd newydd fel AFP, cyfryngau digidol, a rheoli talent, sydd oll yn gynyddol bwysig o fewn modelau ariannu darlledu a chreu cynnwys y dyfodol. Mi fyddwn yn parhau i chwilio am gaffaeliadau sy'n strategol addas i'r Grŵp ac a fyddai'n ychwanegu gwerth i'r cyfranddalwyr.

Ar ôl diwedd y flwyddyn yr oeddem yn hynod o falch o ennill tendr gyhoeddus werth £12 miliwn dros dair blynedd i gyflenwi rhaglenni a dolenni i blant hŷn i S4C. Mae hyn yn cadarnhau y talentau creadigol sy'n bodoli o fewn y Grŵp ac yn ein gwneud yn un o gynhyrchwyr cynnwys i blant gyda'r mwyaf yn y DU, sefyllfa y byddwn am ymelwa arni yn rhyngwladol trwy werthiant a chyd-gynyrchiadau.

Wedi 12 mis heriol, mae gennym bellach seiliau cadarn i'r dyfodol gyda gweledegd uchel dros gomisiynau'r dyfodol a phibell gynhyrchu werth £42.9 miliwn, yn cynnwys £16.9 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn, ynghyd â chaffaeliad diweddar o Indus Films, yn rhoi llwyfan ardderchog ar gyfer cyfnod nesaf o dyfiant i'r Grŵp.

Mae busnesau creadigol yn seiliedig ar bobl, ac mi fyddwn yn hoffi achub ar y cyfle i ddiolch i'r tîm gweithredol dan arweiniad Huw Eurig Davies ac yn bwysicach na dim i'r holl staff am eu gwaith caled, eu teyrngarwch a'u hangerdd dros Boomerang dros y flwyddyn a aeth heibio.

Richard Huntingford
Cadeirydd anweithredol

26 Hydref 2009

Adolygiad Busnes

Adolygiad Ariannol

Yn erbyn cefndir o greisis economaidd byd eang, blwyddyn o integreiddio ac atgyfnerthu ein busnesau oedd y flwyddyn hyd at Mai 31, 2009. Aeth y trosiant i lawr 5.6% i £19.76 miliwn (2008: £20.93 miliwn), wedi effeithio gan ychydig o brosiectau a ohiriwyd neu a ddilëwyd, ond y rhan fwyaf yn digwydd yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Un o arwyddion perfformiad allweddol y Grŵp yw elw crynswth a leihaodd £1.02 miliwn i £2.88 miliwn, i lawr o26% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd elw grynswth ymylol yn 14.6% (2008: 18.6%). Achoswyd y lleihad wrth i ddau o brosiectau'r cwmni dan berfformio yn ogystal â'r gohiriadau a'r dileadau y cyfeiriwyd atynt uchod a'r pwysau ar gyllidebau rhaglenni. Gostyngodd yr elw weithredol gywiriedig* o 43% i £1.25 miliwn (2008: £2.20 miliwn).

Cafwyd costau o £0.07 miliwn (2008: £0.10 miliwn) yn y cyfnod mewn perthynas â thrafodaethau corfforaethol aflwyddiannus. Yn y flwyddyn flaenorol cynhwyswyd costau o £0.64 miliwn mewn perthynas â'r rhestru ar AIM yn Nhachwedd 2007 a chostau o £0.1 miliwn mewn perthynas â chyfundod aflwyddiannus. Adroddwyd elw cyn treth o £1.1 miliwn am y flwyddyn. (2008: £1.30 miliwn).

Roedd gan y Grŵp arian a chyfwerth arian o £3.03 miliwn ar 31 Mai 2009 (2008: £6.33 miliwn). Hefyd, gwnaethpwyd taliadau gohiriedig mewn perthynas â chaffaeliadau mewn cyfnodau blaenorol o £0.15 miliwn ac ad daliadau dyled o £0.3 miliwn yn ystod y flwyddyn. Gwariodd y Grŵp arian cyfalaf o £0.9 miliwn yn y flwyddyn hyd at 31 Mai 2009, yn bennaf ar ehangu a diweddaru ei adnodd ôl gynhyrchu.

Ar 31 Mai 2009, roedd gan y Grŵp asedion net o £8.66 miliwn (2008: £7.75 miliwn).

** wedi ei gywiro ar gyfer treuliau gweinyddol eithriadol (2009, £dim, 2008: £064 miliwn),ffioedd proffesiynol ar gyfer trafodion corfforaethol aflwyddiannus (2009: £0.07 miliwn, 2008: £0.10 miliwn), amorteiddio asedion annirweddol yn deillio o gaffaeliadau busnesau (2009: £0.02 miliwn, 2008: £0.04 miliwn) a thaliadau'n seiliedig ar gyfranddaliadau (2009: £0.02 miliwn, 2008: £0.02 miliwn).*

Rhaglenni a chynnwys

Mae pob un o fusnesau cynhyrchu cynnwys y Grŵp, Boomerang, Fflic, Alfresco ac Apollo, wedi cyfrannu at bortffolio cryf o raglenni amrywiol ar draws y genres ar gyfer ein cwsmeriaid darlledu yn ystod y flwyddyn. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

Chwaraeon ac AFP
Cwblhaodd adran Chwaraeon Boomerang ei seithfed cyfres o'r gyfres a wobrwywyd gan y Gymdeithas Deledu Brydeinig, "Freesports on 4" i Channel 4 ac mae ar hyn o bryd yn cynhyrchu'r wythfed cyfres. Mae gennym berthynas dros amser sy'n llawn ymddiriedaeth gyda brandiau blaenllaw fel Red Bull, Quiksilver, Billabong, Xbox a Sony.

Yn ystod y flwyddyn cynhyrchodd Boomerang "4 Sport:Road to 2012" ar gyfer Channel 4 yn dilyn rhai sy'n gobeithio bod yn y gemau Olympaidd yn Llundain 2012 a dwy raglen ddogfen

am Gymry gobeithiol – "Y Ras i Lundain" ar gyfer S4C. Hefyd mewn cynhyrchiad ar gyfer S4C mae'r ail gyfres o "Chwa" - y sioe chwaraeon eithafol i S4C.

Yn dilyn llwyddiant "4Sport: Road to 2012" fe'n comisiynwyd gan McCain i gynhyrchu'r "Track and Field show" ar Channel 4. Dyma un o'r nifer o gomisiynau pwysig gan ein hadran AFP yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys "Sony Ericsson B-boy Championships" a "Sony Playstation GT Academy" – ac mae'r ddwy wedi eu hail gomisiynu.

Ers diwedd y flwyddyn ariannol yr ydym wedi gwneud cyhoeddiadau cyffrous iawn: sefydlu Big Freeze Limited, gyda Channel 4 a Sportsvision, a chaffael Method, cynhyrchydd aml-gyfrwng sy'n arbenigo mewn eirafyrddio. Bydd y ddau fusnes yn defnyddio sgiliau craidd ein hadran AFP a'n galluogi i gynyddu gwerth ein brandiau.

Drama
Apollo yw adran ddrama arbenigol y Grŵp sydd wedi cynhyrchu ffilm 90 munud, Martha, Jac a Sianco ar gyfer S4C; derbyniodd y ffilm, oedd yn llwyddiant ysgubol gyda'r gwylwyr, 6 gwobr BAFTA. Hefyd derbyniodd trydedd gyfres "Con Passionate" sy'n dilyn côr meibion gyda merch yn arweinydd, wobr bwysig y Rose d'Or.

Ffilmiwyd yr ail gyfres o "Teulu", cyfres ddrama o ddeg pennod, awr yr un, wedi ei lleoli o gwmpas syrjeri doctor yn Aberaeron a'r ail gyfres o "Dau dy a Ni", cyfres ddeg pennod hanner awr yr un wedi ei lleoli mewn tŷ maeth yn y cymoedd, y ddwy ar gyfer S4C, yn ystod y flwyddyn. Cafodd Teulu ei ail gomisiynu am drydedd cyfres.

Dramâu unigol eraill a gyflenwyd gan y Grŵp i S4C yn ystod y cyfnod oedd "Ryan a Ronnie", "Y Rhwyd", "Omlet", "Cymru Fach" a "Beryl, Cheryl a Meryl".

Comedi, adloniant a cherddoriaeth
Cynhyrchodd y Grŵp rifyn arbennig ar gyfer y Nadolig i S4C o "Sioe PC Leslie Wynne", ail gyfres o'r gyfres gêm deithio "0 ond 1", a chyfres o wyth o raglen gomedi sgwrsio "Tudur Owen o'r Doc".

Enillodd y sioe realiti "Saith Magnifico" gyda Mathew Rhys ac enwogion eraill yn Arizona wobr BAFTA am y rhaglen adloniant orau. Roedd yn un o nifer o raglenni fu'n rhan o gyfraniad sylweddol y Grŵp i amserlen Nadolig S4C.

Mae portffolio "mewn cynhyrchiad" Boomerang yn cynnwys:

- "Bandit" – pedair rhaglen arbennig o'r gyfres ieuenctid hwyr y nos o wyliau cerddorol.
- "Nodyn" – ail gyfres y rhaglen sy'n rhoi llwyfan i'r gorau o gerddoriaeth Gymraeg cyfoes.
- "Gofod" – cyfres gyntaf o raglenni cylchgrawn dwywaith yr wythnos i'r gynulleidfa ifanc.
- "Tenor" – cyfres mewn pedair rhan ar gyfer BBC Wales yn cael ei chyflwyno gan arweinydd carismataidd Only Men Aloud, Tim Rhys Evans, sy'n chwilio gyfrinachau'r llais tenor.
- "Elvis Weekend" – rhaglen unigol ar gyfer BBC Wales yn dangos beth sy'n digwydd pan fydd ffans Elvis yn cymryd Porthcawl drosodd am dridiau.
- "Seren Bethlehem" – cyfres o wyth rhaglen arbennig sy'n darlunio pentref Bethlehem yn Sir Gaerfyrddin yn paratoi drama'r geni arbennig iawn.
- "Tudur Owen o'r Doc" – ail gyfres gyda'r comedïwr a'i westeion.
- "PC Leslie Wynne" – Rhaglen Nadolig newydd.

- "Cyngerdd y Cardis" – enillwyr rhubanau glas yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod at ei gilydd am noson i ddiddanu ac ysbrydoli.

Rhaglenni Ffordd o Fyw
Unwaith eto cynhyrchodd Fflic dymor o raglenni Ffordd o Fyw arbennig i S4C. Wrth ymestyn strandiau llwyddiannus cafwyd "04Wal – Gwestai" yn edrych ar bensaernïaeth a chynllunio gwestai o gwmpas y byd. Mae'r "Dref Gymreig" yn archwilio adeiladau cynhenid yn nhrefi Cymru; ac mae "Cwpwrdd Dillad" yn rhoi cyfle i unigolion sôn am eu bywyd drwy eu dillad.

Yn y flwyddyn gyfredol mae Fflic yn cynhyrchu dwy gyfres newydd: "Cartrefi Cefn Gwlad Cymru" a "Tocyn".

Plant
Yn mis Tachwedd , cychwynnodd Boomerang ar ail flwyddyn ei gytundeb £4 miliwn o gynhyrchu dolenni "Planed Plant" i S4C. Cafodd y cytundeb ei ymestyn tan Ebrill 2010 pan fydd y cytundeb newydd £4 miliwn y flwyddyn a ehangwyd i gynnwys plant hŷn yn cychwyn.

Cyfresi a gynhyrchwyd, neu oedd mewn cynhyrchiad yn ystod y cyfnod yw: "Yn yr Ardd", "Heini", "Dawnstastig 2", "Jac Russell", "Garej", "123" ac "ABC" a enillodd wobr RTS.

Dangosodd arolwg 2009 y cylchgrawn Broadcast fod y Grŵp yn un o gynhyrchwyr mwyaf cynnwys ar gyfer plant drwy'r DU. Wrth adeiladu ar yr arbenigrwydd sydd wedi datblygu, yr ydym ar hyn o bryd mewn cynhyrchiad ar ein comisiwn cyntaf i CBBC, "Children of Prisoners".

Mae'r cyfresi mewn cynhyrchiad gan Fflic ar hyn o bryd yn cynnwys "Garej 2", "Ant ac Al ar y Ffordd", "Y Salon" ac "Yn yr Ardd 2", a chan Boomerang: "Twm Tisian", "Tŷ Cyw" a ffilm awr o hyd, "Ble mae Cyw?"

Ffeithiol
Ar gyfer BBC Wales, cynhyrchodd Boomerang "Chiefs", gyda David Williams (darlledwr oedd gynt gyda'r BBC); "Kick into Reading" yn cysylltu dweud stori gyda phêl droed drwy storiâu'r enwog Pat Ryan a chwaraewyr a hyfforddwyr Cardiff City FC; a "The Member for Happiness", rhaglen ddogfen yn cofio'r aelod seneddol lliwgar Cymreig, Leo Abse.

Ar gyfer S4C cynhyrchodd y Grŵp "Camp Bastion" rhaglen ddogfen unigol yn dilyn aelodau'r Ysbyty Maes y 203 o'r Fyddin Diriogaethol yn Afghanistan; Griffith Jenkins Griffith lle mae'r actor Matthew Rhys yn chwilio i fywyd yr entrepreneur o Gymro a helpodd i newid Los Angeles o dref wartheg i ddinas fetropolitan.; "Y Bleiddiaid" , yn dilyn beicars, rhaglen hunan gofiannol gyda Hywel Teifi Edwards a "Lawrence o Arabia" lle mae'r Cymro Arabaidd Ali Yassine yn dilyn ôl troed T E Lawrence.

I strand Cutting Edge Channel 4 mae Boomerang yn cynhyrchu "Harrow Scholarships", rhaglen ddogfen lle cafwyd mynediad i'r ysgol fonedd enwog. Mae'n dilyn bechgyn o gefndir cyffredin a gafodd ysgoloriaeth i gael eu haddysgu ymhlith y breintiedig a'r cyfoethog.

Digwyddiadau
Yng Ngorffennaf 2008, cynhyrchodd Boomerang y darllediadau byw o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru am y drydedd flwyddyn o gytundeb 4 blynedd gyda S4C; roedd yn cynnwys dros 60 awr o ddarlledu ar y teledu, ar y we, a rhyngweithio rhwng y gwahanol gylchoedd.

Cynhyrchodd cwmni cyd-fenter y Grŵp, Hanner:Hanner, y darlledu byw o "Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd" am y bedwaredd flwyddyn o gytundeb pedair blynedd.

Ôl gynhyrchu ac adnoddau

Ehangodd y Grŵp ei adran ôl gynhyrchu ymhellach yn ystod y cyfnod, gan fuddsoddi mewn unedau golygu o'r safon uchaf posibl, ehangu'r gallu Manylder Uwch a chynyddu'r storfa ddigidol ganolog. Mae'r adnoddau hyn yn rhoi sglein ar raglenni ar draws y Grŵp ac i gleientiaid allanol.

Parhawyd i wneud defnydd sylweddol o stiwdios mewnol y Grŵp, yn bennaf ar gyfer "Planed Plant" a thyfodd ein cyd fenter adnoddau camera, Zoom, yn ystod ei blwyddyn weithredol gyntaf.

Radio

Parhaodd i Grŵp i gyflenwi amrywiaeth eang o raglenni radio, yn arbennig ar gyfer Radio Wales a Radio Cymru, a chynhyrchodd ei gynnwys cyntaf ar gyfer Radio 5 yn ystod y flwyddyn.

Rheoli Talent

Yn ei ail flwyddyn o fasnachu parhaodd Boom Talent, cwmni rheoli talent sy'n cynrychioli actorion a chyflwynwyr mewn ffilm, teledu, theatr, radio, gwaith corfforaethol a gwaith lleisio, i ymsefydlu a chynyddu nifer ei gleientiaid – sydd erbyn hyn wedi cyrraedd 29.

Cyfryngau Digidol

Gyda'n partner cyfryngau digidol, Cube Interactive, rydym yn parhau i ymchwilio a datblygu cyfleon mewn cyfryngau digidol, yn cynnwys gwefannau, ffrydio cynnwys a rhyngweithio. Ymhlith cytundebau rhyngweithiol sylweddol roedd "Y Sioe", "Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd" a "Planed Plant".

Caffaeliad Indus

Ar Hydref 20fed 2009, cyhoeddodd Boomerang ei gaffaeliad o Indus Films Limited, cwmni cynhyrchu o Gymru sydd a'i olwg ar y rhwydweithiau ac sydd wedi ennill nifer o wobrau am ei gynnwys. Y pris cychwynnol oedd £1.1miliwn. Mae'r caffaeliad hwn yn ymestyn ystod cwsmeriaid ac amrywiaeth genre Boomerang a bydd yn ychwanegu ein sefyllfa fel cyflenwr o ddewis yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau i lenwi cwotâu y Darlledwyr Rhwydwaith. Disgwylir i'r caffaeliad gynhyrchu cynnydd enillion i Boomerang yn y flwyddyn hyd at 31 Mai 2010.

Hinsawdd Reoleiddio

Cyhoeddodd Ofcom, rheoleiddiwr y diwydiant, Ran 2 o'i ail arolwg o Ddarlledu Cyhoeddus ar Fedi 25 2008. Yn hwn, am y tro cyntaf, rhoddir cwota penodol (3%) ar Channel 4 ar gyfer rhaglenni y tu allan i Loegr ynghyd â chynnydd yn y cwota y tu allan i Lundain o 30% i 35%. Mae Ofcom hefyd "yn croesawu targed y BBC i gynyddu ei cwota tu allan i Lundain i 50% gyda'r cwota o'r cenhedloedd yn 17%." Ynghyd â'r adolygiad cadarnhaol o S4C, cadarnhawyd

ein cred fod gweithredu yn y Cenhedloedd, yng Nghymru'n arbennig, yn creu cyfleon sylweddol i'r Grŵp.

Polisi Difidend

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend ar gyfer y flwyddyn (2008: £dim). Bydd cyhoeddi difidend yn y dyfodol yn ddibynnol ar ganlyniadau'r Cwmni a'r Grŵp, ei sefyllfa ariannol, ei anghenion cyllidol, rhagolygon y dyfodol a ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol ar y pryd. Ymhen y rhawg, mae'n fwriad gan y cyfarwyddwyr i fabwysiadu polisi difidend blaengar.

Busnes gweithredol

Mae gan y Grŵp adnoddau ariannol sylweddol ynghyd â pherthynas tymor hir gyda'i gwsmeriaid. Oherwydd natur busnes y Grŵp, mae gan y rheolwyr orolwg dros y bibell gynhyrchu am y dyfodol, lle mae'r cynnwys yn cael ei ariannu'n llwyr gan y cwsmer. O ganlyniad, mae'r cyfarwyddwyr yn credu fod y cwmni mewn sefyllfa gryf i reoli'r risgiau busnes ar waethaf rhagolygon economaidd ansicr.

Mae gan y cyfarwyddwyr, wedi holi'n fanwl, ddisgwyliad rhesymol fod gan y cwmni adnoddau digonol i barhau i weithredu ac felly mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r cyfrifon.

Rhagolwg

Mae'n sefyllfa fel cwmni cynhyrchu annibynnol aml-genre a'i gartref yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn ein rhoi mewn safle berffaith i fanteisio ar sefyllfa rheoleiddio o fewn y farchnad yr ydym yn gweithredu ynddi.

Mae ein llwyddiant yn sicrhau cytundebau newydd a'n record gydag ail gomisiynau yn rhoi gweledegdd ardderchog i'r Grŵp dros y flwyddyn nesaf a hanner cyntaf 2011, sefyllfa anghyffredin yn y diwydiant hwn.

Mae integreiddio'n busnesau yn dod ymlaen yn dda, ac mae'n timoedd talentog yn datblygu nifer o syniadau newydd ar gyfer ein cleientiaid, sy'n ein helpu i dyfu'r busnes yn organig. Mae'r adran AFP yn dal i dyfu a dylai ychwanegiadau Big Freeze Limited a Method ein galluogi i fanteisio ymhellach ar ein sgiliau craidd yn y maes hwn. Bydd caffaeliad Indus Films Limited yn ychwanegu'n sylweddol at ein hamrywiaeth o gwsmeriaid ac yn ehangu'n cynigion genre i gynnwys antur, amgylchfyd, hanes byw, natur a'r celfyddydau.

Hefyd, byddwn yn dal i chwilio am gaffaeliadau pellach fydd yn ychwanegu gwerth i'n cyfranddalwyr mewn marchnad gyfryngol sy'n newid yn gyflym.

Huw Eurig Davies
Prif weithredwr
26 Hydref 2009

Mark Fenwick
Cyfarwyddwr Cyllid
26 Hydref 2009

BOOMERANG PLUS PLC
Consolidated income statement
Year ended 31 May 2009

	Note	2009 £'000	2008 £'000
Continuing operations			
Revenue		19,759	20,931
Cost of sales		(16,882)	(17,034)
Gross profit		2,877	3,897
Administrative expenses			
Other administrative expenses		(1,862)	(1,874)
Exceptional administrative expenses	2	-	(642)
Professional fees in relation to unsuccessful corporate transaction		(66)	(97)
Amortisation of intangibles arising on business acquisitions		(21)	(38)
Equity-settled share-based payments		(23)	(23)
Total administrative expenses		(1,972)	(2,674)
Other operating income		232	133
Share of results of joint ventures and associates		3	48
OPERATING PROFIT		1,140	1,404
Investment revenue		25	32
Finance costs		(71)	(133)
PROFIT BEFORE TAX		1,094	1,303
Tax	3	(207)	(617)
PROFIT FOR THE YEAR		887	686
Attributable to:			
Equity holders of the parent		887	686
Earnings per share	4		
Basic		9.96p	8.77p
Diluted		9.70p	8.31p
Adjusted – basic		11.20p	18.99p
Adjusted – diluted		10.91p	17.78p

BOOMERANG PLUS PLC
Consolidated statement of changes in equity
Year ended 31 May 2009

	Share capital £'000	Share premium account £'000	Merger reserve £'000	Retained earnings £'000	Total equity £'000
Group					
Balance at 1 June 2007	68	969	1,217	1,801	4,055
Profit for the financial year	-	-	-	686	686
New shares issued (*)	21	2,962	-	-	2,983
Equity-settled share-based payments	-	-	-	23	23
Balance at 31 May 2008	89	3,931	1,217	2,510	7,747
Profit for the financial year	-	-	-	887	887
New shares issued	-	2	-	-	2
Equity-settled share-based payments	-	-	-	23	23
Balance at 31 May 2009	89	3,933	1,217	3,420	8,659

The Group has taken advantage of section 612 of the Companies Act 2006 and therefore the excess over the nominal value of shares issued other than for cash has been allocated to the merger reserve.

(*) Amount is stated net of share issue costs of £150,000

BOOMERANG PLUS PLC
Consolidated balance sheet
31 May 2009

	2009 £'000	2008 £'000
NON-CURRENT ASSETS		
Goodwill	2,131	2,108
Other intangible assets	1,161	1,229
Property, plant and equipment	1,686	1,662
Investments	147	124
	5,125	5,123
CURRENT ASSETS		
Inventories	-	3
Trade and other receivables	3,625	2,851
Current tax assets	219	-
Cash and cash equivalents	3,027	6,325
	6,871	9,179
TOTAL ASSETS	11,996	14,302
CURRENT LIABILITIES		
Trade and other payables	2,106	4,894
Current tax liabilities	407	589
Interest-bearing loans and borrowings	307	278
Deferred consideration	209	174
	3,029	5,935
NON-CURRENT LIABILITIES		
Interest-bearing loans and borrowings	175	290
Other payables	17	68
Deferred tax liabilities	116	103
Deferred consideration	-	159
	308	620
TOTAL LIABILITIES	3,337	6,555
NET ASSETS	8,659	7,747
EQUITY		
Share capital	89	89
Share premium account	3,933	3,931
Merger reserve	1,217	1,217
Retained earnings	3,420	2,510
TOTAL EQUITY	8,659	7,747

BOOMERANG PLUS PLC
Consolidated cash flow statement
Year ended 31 May 2009

		2009 £'000	2008 £'000
NET CASH (OUTFLOW)/INFLOW FROM OPERATING ACTIVITIES	5	(2,828)	1,044
INVESTING ACTIVITIES			
Interest received		25	32
Purchase of property, plant and equipment		(183)	(346)
Acquisition of subsidiaries		-	(2)
Acquisition of associates		(33)	-
Acquisition of subsidiaries - deferred consideration payments		(146)	(837)
Acquisition of intangible fixed assets		-	(69)
Proceeds on disposal of property, plant and equipment		54	184
NET CASH USED IN INVESTING ACTIVITIES		(283)	(1,038)
FINANCING ACTIVITIES			
Repayments of obligations under finance leases		(340)	(329)
Repayment of borrowings		-	(350)
Proceeds on issue of shares		3	2,983
Grants received		150	80
NET CASH (USED IN)/GENERATED FROM FINANCING ACTIVITIES		(187)	2,384
NET (DECREASE)/INCREASE IN CASH AND CASH EQUIVALENTS		(3,298)	2,390
CASH AND CASH EQUIVALENTS AT BEGINNING OF YEAR		6,325	3,935
CASH AND CASH EQUIVALENTS AT END OF YEAR		3,027	6,325

BOOMERANG PLUS PLC

Notes to the preliminary announcement

1. BASIS OF PREPARATION

The financial information set out in this announcement does not constitute the company's statutory accounts for the years ended 31 May 2009 or 31 May 2008, but is derived from those accounts. Statutory accounts for 2008 have been delivered to the Registrar of Companies and those for 2009 will be delivered following the company's annual general meeting. The auditors have reported on those accounts; their reports were unqualified, did not draw attention to any matters by way of emphasis without qualifying their report and did not contain statements under s498(2) or (3) Companies Act 2006.

The Group income statement, balance sheets and cash flow statements for the years ended 31 May 2009 and 31 May 2008 have been prepared on a basis consistent with the accounting policies disclosed in the Group's annual report for the year ended 31 May 2008.

Whilst the financial information included in this preliminary announcement has been computed in accordance with International Financial Reporting Standards (IFRSs), this announcement does not itself contain sufficient information to comply with IFRSs. The Company expects to publish full financial statements that comply with IFRSs in November 2009.

2. EXCEPTIONAL ITEMS

	2009 £'000	2008 £'000
Costs associated with AIM listing	-	642

Costs associated with AIM listing were costs not directly attributable to the raising of equity.

3. TAX ON PROFIT ON ORDINARY ACTIVITIES

	2009 £'000	2008 £'000
Current taxation		
United Kingdom corporation tax:		
Current tax on income for the year at 28% (2008 – 28%/30%)*	194	618
Adjustment in respect of prior years	-	(23)
Total current tax	194	595
Deferred tax		
Origination and reversal of timing differences	13	40
Adjustments to the estimated recoverable amounts of deferred tax assets arising in previous periods	-	(18)
	13	22
Total charge for the year	207	617

* Included within the current tax charge is a credit of £219,000. This relates to the UK Film tax credit earned within Boom Films Limited, a subsidiary company

The difference between the total tax shown above and the amount calculated by applying the standard rate of United Kingdom corporation tax to the profit before tax is as follows:

	2009 £'000	2008 £'000
Profit on ordinary activities before tax	1,094	1,303
Tax on profit on ordinary activities before tax at 28% (2008 – 28%/30%)	306	387
Factors affecting charge for the year		
Expenses not deductible for tax purposes	34	249
Non-deductible amortisation and impairment charges	6	11
Capital allowances (in excess of)/less than depreciation	17	(45)
Unutilised tax losses	7	12
Other	(8)	4
Marginal relief	(2)	-
UK Film tax credit adjustment	(166)	-
Adjustment in respect of prior years	-	(23)
Origination and reversal of timing differences	-	40
Adjustments to the estimated recoverable amounts of deferred tax assets arising in previous periods	-	(18)
Total tax charge for the year	194	617

4. EARNINGS PER SHARE

The calculation of the basic, diluted and adjusted earnings per share is based on the following data:

	2009 £'000	2008 £'000
Earnings		
Profit for the year	887	686
Preferred share finance cost	-	17
Diluted profit	887	703
Exceptional administrative expenses	66	739
Amortisation of intangibles arising on business acquisitions	21	38
Equity-settled share-based payments	23	23
Adjusted profit	997	1,503
Number of shares	**No.**	**No.**
Weighted average number of ordinary shares for the purpose of basic earnings per share	8,903,478	7,824,974
Effect of dilutive potential ordinary shares:		
Share options	238,178	631,148
Dilutive weighted average number of shares	9,141,655	8,456,122
Earnings per ordinary share – basic	9.96p	8.77p
Earnings per ordinary share – diluted	9.70p	8.31p
Adjusted earnings per share – basic	11.20p	18.99p
Adjusted earnings per share – diluted	10.91p	17.78p

The Goup have 12,797 options in issue but these are not considered to be dilutive and have been excluded from the weighted average number of shares for the purpose of diluted earnings per share calculation.

5. NOTES TO THE CONSOLIDATED CASH FLOW STATEMENT

	2009 £'000	2008 £'000
Profit from operations	1,140	1,404
Adjustment for:		
Amortisation of intangible fixed assets	68	65
Depreciation of property, plant and equipment	396	363
Profit on property, plant and equipment disposals	(37)	(7)
Government grants	(165)	(38)
Results of joint venture	5	(48)
Equity-settled share-based payments	23	23
Operating cash flows before movement in working capital	1,430	1,762
Increase in receivables	(775)	(1,034)
(Decrease)/increase in payables	(2,823)	870
Decrease in inventory	3	2
Cash generated by operations	(2,165)	1,600
Income taxes paid	(592)	(423)
Interest paid	(71)	(133)
Net cash (outflow)/inflow from operating activities	(2,828)	1,044